

FFURFLEN YMGYNGHORI

Nodyn Cyngor Technegol Drafft Datblygu Economaidd

Rydym am gael gwybod eich barn am y newidiadau arfaethedig i bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd.

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **5 Medi, 2013** os gwelwch yn dda

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at: planconsultations-A@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch: 029 2082 1673

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw. Gellir ei weld hefyd gan aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch dic yn y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylon..

Gallai enwau neu gyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio ddal i gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio. S bydd rhywun wedi gofyn am i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Ond weithiau fe allai fod rheswm pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, hyd yn oed er eu bod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyfrinachedd

Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad.

Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu dangos ar unrhyw ddogfennau rydym yn eu cynhyrchu nodwch hynny yma

FFURFLEN YMGYNGHORI

Nodyn Cyngor Technegol drafft 23 Datblygu Economaidd		
Dyddiad 10 Mehefin – 5 M e d i 2013		
Enw	Dr Maggie Hill	
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru	
Cyfeiriad	Tŷ Ladywell Y Drenewydd SY16 1RD	
Cyfeiriad e-bost	maggie.hill@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk	
Ffôn	01686 613424	
Math <i>(dewiswch un o'r canlynol)</i>	Busnesau	<input type="checkbox"/>
	Awdurdod Cynllunio Lleol	<input type="checkbox"/>
	Asiantaeth y Llywodraeth/Sector Cyhoeddus Eraill	x
	Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Diddordeb	<input type="checkbox"/>
	Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunan gymorth, cwmnïau cydweithredol, mentrau, crefyddol, sefydliadau dielw)	<input type="checkbox"/>
	Arall (grwpiau eraill nad ydynt wedi'u rhestru uchod)	<input type="checkbox"/>

C1	Mwy na Chynllunio Lleol (ad 1.14)	X
	A ydych yn cytuno â'r asesiad o ddatblygiad economaidd strategol yn adran 1.14?	
	Cytuno	x
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	

C1	Sylwadau Pellach
<p>Rydym ni'n croesawu'r datganiad y dylai'r system gynllunio geisio llywio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni o blaid dull sy'n annog awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth gyffredin a chynllunio ar draws ffiniau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn cael eu llywio i'r lleoliadau mwyaf priodol.</p> <p>Yn y broses o ddatblygu sylfaen dystiolaeth gyffredin, dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) egluro'r angen i ystyried ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er mwyn sicrhau bod datblygiad yn cael ei lywio i leoliadau sydd â'r seilwaith priodol a'r capasiti amgylcheddol i ymdopi â thwf. Bydd yr agwedd integredig hon yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n arwain at ganlyniadau cynaliadwy, gan sicrhau bod y datblygiadau iawn yn digwydd yn y manau iawn ac o bosibl yn lleihau unrhyw oedi gyda cheisiadau mawr.</p> <p>Yn ogystal, os bydd cynllunio economaidd yn symud tuag at system dinas-ranbarth, rydym ni'n awgrymu y dylai'r TAN egluro sut y dylai hyn fod yn gydnaws â chynllunio strategol mewn perthynas â defnydd tir rhanbarthol.</p>	

C2	Pwyso Manteision (ad 2.5.1-2.5.7)	X
	Wrth ystyried dyraniad safle neu gais cynllunio a allai achosi niwed cymdeithasol neu amgylcheddol ydych chi'n cytuno gyda'r tri chwestiwn a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol y dylai lpas eu hystyried wrth bwysu eu manteision?	
	Cytuno	
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	x
	Anghytuno	

C2	Sylwadau Pellach

Rydym ni'n croesawu'r datganiad ym mharagraff 2.1 y TAN Drafft mai'r nod wrth gynllunio yw canlyniadau cadarnhaol i bawb a sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu at bob agwedd ar gynaliadwyedd. Yn ein barn ni, hwn yw'r pwynt dechreuol wrth ystyried ceisiadau cynllunio, ac wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer eu datblygu. Dylai'r awdurdod cynllunio ystyried sut y bydd y datblygiad arfaethedig neu'r dyraniad yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Er bod y tri chwestiwn a nodwyd yn y TAN Drafft yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu ar gynnig, mae ffactorau eraill hefyd yn berthnasol wrth asesu cyfraniad y cynnig tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys pa mor agos yw'r safle at gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a thai, a'i gyfraniad tuag at yr economi carbon isel. Yn ogystal, bydd angen ystyried costau oes gyfan y datblygiad arfaethedig wrth ystyried yr her a ddaw gan newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, er enghraifft newidiadau mewn perygl llifogydd a faint o ddŵr sydd ar gael.

Dylai'r TAN felly bwysleisio mai'r nod yw sicrhau datblygu cynaliadwy. Dylid ystyried y cwestiynau a nodwyd ar y cyd ag ystyriaethau eraill er mwyn penderfynu beth yw cyfraniad cynnig penodol tuag at ddatblygu cynaliadwy.

Dylai'r TAN hefyd egluro bod angen i adroddiadau swyddogion cynllunio a phenderfyniadau'r pwyllgor cynllunio ddangos yn union sut yr ystyriwyd y tri chwestiwn, ynghyd ag ystyriaethau ymarferol eraill, wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau perthnasol am ganiatâd cynllunio. Dylai'r adroddiadau hefyd ddangos sut y cafodd honiadau a ddarparwyd i gefnogi ceisiadau (e.e. mewn perthynas â chreu swyddi ac adfywio ffisegol) eu hystyried yn feirniadol gan yr awdurdod. Bydd y dull hwn o weithio yn helpu i sicrhau tryloywder a dealltwriaeth yn y broses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys sut yr ystyriwyd pob ystyriaeth ymarferol.

Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r TAN hybu'r manteision sy'n gysylltiedig â chynnal trafodaethau cyn gwneud cais er mwyn nodi cyfleoedd posibl a chyfyngiadau safle datblygu. Mae ymgysylltu fel hyn yn gallu helpu i roi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr yn gynnar yn y broses o wneud cais cynllunio ac yn helpu i osgoi oedi costus yn hwyrach ymlaen yn y broses.

C3	Cynllunio Gwledig (ad 3.1- 3.6)	X
	A ydych chi'n cytuno â'r dull a gyflwynir mewn perthynas â chynllunio gwledig?	
	Cytuno	
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	x
	Anghytuno	
Sylwadau Pellach		

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y gellir lleoli ystod eang o weithgareddau mewn ardaloedd gwledig mewn modd cynaliadwy. Yn gyffredinol, rydym ni'n ffafrio'r dull dilyniannol o weithredu wrth geisio dod o hyd i dir ar gyfer defnydd economaidd mewn cynlluniau datblygu. Fodd bynnag, byddem yn pryderu pe bai dyraniadau yng nghefn gwlad yn gwrthdaro â dyheadau cenedlaethol mwy cyffredinol, neu ag amcanion eraill cynlluniau datblygu, e.e. lleihau'r angen i deithio a gwarchod buddiannau y dreftadaeth naturiol. Gallai hyn arwain at sefyllfa ble nad yw rhai dyraniadau gwledig yn cyd-fynd yn glir ag amcanion mwy cyffredinol cynllun datblygu ac o ganlyniad yn methu â bodloni gofynion pob prawf cadernid.

Rydym yn croesawu eglurdeb y polisi cynllunio cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli. Mae'n nodi y dylai cynlluniau datblygu ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer datblygiadau economaidd newydd o fewn ac yn agos i aneddiadau gwledig ac y dylid seilio'r broses ar feini prawf a/neu y dylid ystyried polisi safleoedd eithriedig ar sail cyflogaeth yn achos ardaloedd gwledig ac aneddiadau llai o faint. Rydym ni felly'n ystyried bod y polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol eisoes yn darparu fframwaith addas a chllir ar gyfer dyrannu datblygiadau mewn ardaloedd gwledig.

C4	Cynlluniau Datblygu a'r Economi (ad 4.1)	X
	Er bod y NCT (TAN) yn rhoi rhestr enghreifftiol o randdeiliaid allweddol y dylid ymgynghori â nhw wrth baratoi cynllun datblygu, a oes pobl eraill na chyfeirir atynt y mae'n bwysig eu crybwyll?	
	Cytuno	x
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	

Sylwadau Pellach

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth y dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y broses o greu Cynllun Datblygu Lleol.

Rydym ni'n cefnogi'r bwriad i ddarparu rhestr o randdeiliaid allweddol, er na fydd hi'n rhestr gyflawn, gan y bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol ddatblygu eu rhestrau eu hunain o ymgylgoreion i adlewyrchu amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, teimlwn y dylai rhestr ymgylgoreion y TAN hefyd gyfeirio at y cwmni dŵr perthnasol a chynnwys cyngor ar yr angen i ymgynghori ag adrannau awdurdodau lleol eraill, er enghraifft y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio brys, bioamrywiaeth a draenio.

C5	Sail Dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol (ad 4.3 – 4.4)	X
-----------	---	----------

	A ydych yn cytuno â'r dull a ddisgrifiwyd i gasglu data ar raddfa ranbarthol a lleol?	
	Cytuno	x
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	

C5 Sylwadau Pellach

Rydym ni o blaid dull sy'n casglu tystiolaeth ar ddwy raddfa wahanol i fod o gymorth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Dylid defnyddio data wedi ei gasglu ar raddfa ranbarthol er mwyn sicrhau bod datblygu strategol wedi ei leoli yn y lleoliadau mwyaf priodol, gan ystyried anghenion seilwaith y datblygiad a chapasiti amgylcheddol yr ardal.

Rydym yn awgrymu felly y dylai'r TAN newydd annog awdurdodau cynllunio lleol, neu grwpiau rhanbarthol, i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru wrth fynd ati i gasglu tystiolaeth er mwyn ceisio nodi unrhyw botensial am gyfleoedd neu gyfyngiadau a allai fod ynghlwm wrth safleoedd strategol sydd dan ystyriaeth.

Yn ogystal, mae proses cynllunio rheolaeth adnoddau naturiol (NRMP), fel y'i disgrifiwyd yn *Cynnal Cymru Fyw* (Llywodraeth Cymru, 2011), yn gyfle i sicrhau bod digon o dystiolaeth gyson ar gael ynglŷn â chyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol i fod o gymorth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â lleoliad datblygiad.

Dylid ystyried y gallu i adolygu'r TAN newydd hwn pan fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau natur a statws y broses cynllunio rheolaeth adnoddau naturiol.

Rydym yn disgwyl yn eiddgar i weld y canllawiau newydd ar gynnal Adolygiad Tir Cyflogaeth, a byddem yn croesawu'r cyfle i gynnog ein cyngor pan fo hynny'n berthnasol.

C6	Gweledigaeth Economaidd (ad 4.5 – 4.10)	x
	A ydych yn cytuno â'r esboniad o'r hyn y dylai gweledigaeth economaidd ei chynnwys?	
	Cytuno	
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	x

Sylwadau Pellach

Dylai gweledigaeth economaidd y Cynllun gyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol mwy eang, a gyda'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r dull o ddatblygu cynaliadwy a ddisgrifiwyd ym *Mholisi Cynllunio Cymru*.

Mae Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar ymdrin â rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd newydd, *Cynnal Cymru Fyw* (2012), yn cyfeirio at nifer o astudiaethau sydd yn tanlinellu cyfraniad pwysig yr amgylchedd naturiol tuag at les cymdeithasol a ffyniant economaidd. Roedd yr adroddiad *Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd* (2001) yn amcangyfrif bod yr amgylchedd yn cyfrannu gwerth £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau i economi Cymru bob blwyddyn, 9% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) Cymru ac 1 ymhob 6 swydd yng Nghymru. Roedd yr *UK National Ecosystem Assessment* (Mehffin 2011) yn dod i'r casgliad bod bioamrywiaeth ac ecosystemau'r byd naturiol yn allweddol bwysig i'n lles ni a'n ffyniant economaidd. Fodd bynnag, caiff yr elfennau hyn eu tanwerthfawrogi mewn penderfyniadau ac wrth ddadansoddi'r economi mewn modd confensiynol. Rydym felly o'r farn y dylai'r TAN annog awdurdodau lleol i ystyried y manteision economaidd a chymdeithasol a gaiff eu darparu gan wasanaethau ecosystemau wrth ddatblygu eu gweledigaethau economaidd eu hunain. Bydd hyn hefyd yn gymorth i geisio osgoi'r dull cul o feddwl mewn ffordd ynysig wrth edrych ar ddadansoddi a chreu gweledigaeth economaidd.

Rydym ni'n cydnabod yr angen am weledigaeth economaidd sy'n cydnabod unrhyw ansicrwydd a all fodoli yn ystod cyfnod y Cynllun. Dylai hyn gynnwys ystyried goblygiadau'r gost economaidd gyfredol a'r gost yn yr hirdymor os bydd datblygiad yn cael ei lywio i leoliadau anaddas e.e. ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Rydym ni felly'n argymhell y dylai'r TAN annog awdurdodau lleol i ystyried cyfanswm cost gydol oes datblygiad wrth ddatblygu gweledigaeth economaidd ar gyfer eu hawdurdodau lleol nhw.

C7	Senarios Economaidd (ad 4.11 – 4.12)	X
	Ydych chi'n cytuno y dylai strategaethau gynnwys modelu senarios economaidd yn y dyfodol yn seiliedig ar allosod tueddiadau yn y gorffennol a chymryd stoc o asedau economaidd presennol?	
	Cytuno	X
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	

Sylwadau Pellach

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y TAN wedi egluro'n glir y dylai lefel twf fod yn un realistig, ac y dylai gyd-fynd ag amcanion ehangach ar lefel leol a chenedlaethol. Rydym hefyd yn cytuno â'r datganiad sy'n nodi nad oes gan ragolygon economaidd hanes da ac yn cydnabod yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth foddelu senarios yn y dyfodol.

Yn sgil y ffaith bod ffurf drafft y TAN wedi pwysleisio y dylai awdurdodau lleol weithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos, teimlwn y byddai modelu ar sail ardaloedd economaidd gweithredol yn ddull priodol wrth ystyried senarios yn y dyfodol. Dylai hyn hefyd helpu awdurdodau lleol i ddatblygu gweledigaethau economaidd sy'n gyson â'i gilydd. Byddem yn argymhell dull integredig o fodelu senarios yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod anghenion seilwaith a capasiti a chyfleoedd amgylcheddol wedi eu hintegreiddio â rhagolygon economaidd.

Fodd bynnag, bydd angen bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau o ystyried amserlen y Cynllun Datblygu Lleol a'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth fodelu ar raddfa ddaearyddol lai. Yn ogystal, gallai newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod y rhagolygon effeithio ar gyflawniad unrhyw dargedau neu ddyheadau a osodwyd gan awdurdod lleol.

Rydym ni'n cefnogi'r awgrym y dylai awdurdodau lleol gymryd stoc o'u hasedau. Byddai hyn o gymorth i geisio deall os oes unrhyw alw nad sy'n cael ei ddiwallu, yn ogystal â bod o gymorth i adnabod graddfeydd meddiannaeth cyfredol a thueddiadau newydd ymhob sector ddiwydiannol. Gallai gweithio fel hyn hefyd helpu i osgoi dyrannu tir nad oes galw tebygol amdano. Rydym ni'n awgrymu y dylai'r broses o gymryd stoc o asedau economaidd hefyd ystyried unrhyw ffactorau eraill yn ymwneud â chyflenwi, er enghraifft, lefelau cyrhaeddiad addysgol, darpariaeth addysg uwch, y seilwaith trafnidiaeth sy'n bodoli a'r seilwaith sydd wedi ei chynllunio. Dylai'r broses cymryd stoc hefyd ystyried cyfyngiadau posibl yn y dyfodol, er enghraifft, perygl o lifogydd yn sgil newid hinsawdd.

C8	Darparu Tir ar gyfer Cyflogaeth (ad 4.13 – 4.15)	X
	A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau weithio gyda'i gilydd i lywio datblygiad i'r lleoliadau sydd â'r capasiti mwyaf cynaliadwy, hyd yn oed os yw hyn y tu hwnt i'w ffiniau eu hunain?	
	Cytuno	x
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	

Sylwadau Pellach

Fel y nodwyd yn ein hymateb i *Gwestiwn 1* uchod, rydym ni o blaid gweithio mewn dull sy'n annog awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio er mwyn llywio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Yn ein barn ni, mae paratoi'r sylfaen dystiolaeth yn rhan allweddol o fedru ystyried capasiti amgylcheddol yn strategol ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Dylai hyn hefyd helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn datblygu gweledigaethau economaidd sy'n gyson â'i gilydd.

Dylai'r TAN hefyd gydnabod y bydd rhai Ardaloedd Teithio i'r Gwaith ac Ardaloedd Marchnad Dai yn croesi ffiniau gwledydd ac y bydd angen i awdurdodau lleol weithio ar y cyd ag awdurdodau perthnasol yn Lloegr lle bo hynny'n briodol.

C9	Safleoedd Cyflogaeth Presennol (ad 4.25)	X
	A ydych yn cytuno â'r pum maen prawf ar gyfer caniatáu i safleoedd cyflogaeth presennol gael eu rhyddhau ar gyfer defnyddiau eraill?	
	Cytuno	X
	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	
	Anghytuno	
Sylwadau Pellach		
<p>Rydym ni o'r farn bod y meini prawf ar eu ffurf bresennol yn rhesymol. Pan fo awdurdod lleol yn ystyried rhyddhau safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau eraill yn sgil effeithiau amgylcheddol defnydd presennol y safle, dylai'r TAN annog yr awdurdod i ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ystyried graddfa a natur y datblygiad y gellid ei leoli'n briodol o fewn y safle.</p>		

C10	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.	
	Dim.	

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **5 Medi, 2013** mewn unrhyw un o'r ffurfiau a ganlyn:

E-bost	Post
Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at: planconsultations-A@wales.gsi.gov.uk [Cynhwyswch 'Ymgynghoriad TAN Datblygu Economaidd LIC18851' yn y llinell pwnc os gwelwch yn dda]	Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon at: NCT (TAN) Datblygu Economaidd (Ymgynghoriad) Cangen Polisi Cynllunio Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn,

E-bostiwch: planconsultations-A@wales.gsi.gov.uk

Ffoniwch: Richard Spear ar 029 2082 1673